IS-DDDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 27

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Stryd Rhosmaen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *23 Chwefror 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Stryd Rhosmaen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Chwefror 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 27

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A483 Trunk Road (Rhosmaen Street, Llandeilo, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *17 February 2026* |
| *Coming into force* | *23 February 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A483 Trunk Road (Rhosmaen Street, Llandeilo, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 23 February 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 23 Chwefror 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd o’r enw Stryd Rhosmaen sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Newydd a Heol Cilgant hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Theras yr Abaty, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Chwefror 2026

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 23 February 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as Rhosmaen Street that extends from the centre-point of its junction with New Road and Crescent Road to the centre-point of its junction with Abbey Terrace, Llandeilo, Carmarthenshire.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 17 February 2026

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government